



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Llywio'r Gymraeg

Dyddiad: 11 Mawrth 2020

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democratic@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD MAWRTH, 17 MAWRTH 2020** am **10.00 am** yn **YSTAFELL GYFARFOD 5, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019 (copi ynghlwm).

5 EISTEDDFOD YR URDD (Tudalennau 11 - 16)

Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar baratodau ar gyfer yr Eisteddfod a rôl y Cyngor yn y digwyddiad.

6 SAFONAU IAITH GYMRAEG (Tudalennau 17 - 20)

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Llywio'r Gymraeg am y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda Safonau'r Gymraeg.

7 DATBLYGIADAU IAITH GYMRAEG LLEOL (Tudalennau 21 - 26)

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd gyda gweithgareddau iaith Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol.

8 RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL (Tudalennau 27 - 28)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi ynghlwm).

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Ellie Chard
Ann Davies
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Arwel Roberts

Anton Sampson
Graham Timms
Joe Welch
Emrys Wynne

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cyngorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mawrth 12 Tachwedd 2019 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Huw Hilditch-Roberts, Arwel Roberts, Graham Timms (Cadeirydd), Joe Welch a/ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

Arsylwyr – Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, y Cynghorydd Bobby Feeley, y Cynghorydd Alan James a'r Cynghorydd Rhys Thomas

HEFYD YN BRESENNOL

Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd (GW), Swyddog y Gymraeg (MC), Rheolwr Tîm Datblygu Busnes a'r Economi (MH), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS) Comisiynydd y Gymraeg (AR), Swyddog Comisiynydd y Gymraeg (DJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (HB).

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater bryn.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 09 Gorffennaf 2019.

PENDERFYNWYD: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.

5 ADBORTH COMISIYNYDD CYMRAEG

Eglurodd yr Arweinydd Tîm Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd y byddant yn creu adroddiad blynyddol a oedd yn adolygu negeseuon e-bost, cwynion, galwadau ffôn, gwefan ayyb. Roedd y canlyniadau diweddaraf yn gadarnhaol iawn. Dywedodd bod problemau bychain ynghylch negeseuon e-bost, lle'r roedd nifer o e-byst Cymraeg wedi cael eu hanfon i'r sir ac atebwyd un e-bost yn unig yn y Gymraeg.

Roedd dogfennau, llyfrau, polisiau ayyb i gyd yn ddwyieithog, er roedd arnynt angen sicrhau bod gwasanaethau yn ystyried y lefel o'r Gymraeg i bob swydd.

Cytunodd yr Aelodau y gallai fod yn fuddiol i Gomisiynydd y Gymraeg fynychu cyfarfod briffio'r cyngor, neu'r cyngor llawn.

Diolchodd Comisiynydd y Gymraeg i bawb am y gwahoddiad yn y cyfarfod. Hefyd diolchodd i'r Cynghorydd Graham Timms am ei gyflwyno yn y Gymraeg. Roedd y Comisiynydd eisiau diweddarau'r aelodau o'r sefyllfa gyfredol, cyflwynodd Dylan Jones o'r tîm Comisiynydd Y Gymraeg. Hefyd roedd y Comisiynydd eisiau hysbysu'r aelodau y bydd newidiadau yn cael eu gwneud.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod adroddiad yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn sy'n adolygu safonau o fewn yr Awdurdod Lleol, cwynion a sut yr ymdriniwyd â hwy. O ran newid, roeddynt wedi gweld gwahaniaeth mawr. Ers penodi Swyddog Iaith Gymraeg, mae gwahaniaeth mawr wedi bod yn fewnol.

Amlygwyd mai'r newid sylweddol yn fewnol i Sir Ddinbych oedd symud y Gwasanaeth Hamdden. Byddai angen ei fonitro i sicrhau bod yr un lefel o safonau yn cael ei ddefnyddio.

Dywedodd y Comisiynydd eu bod wedi adolygu recriwtio rhwng mis Mehefin a Rhagfyr 2018. Roedd 85 o swyddi yn cael eu hysbysebu ar y pryd, roedd 75 yn Gymraeg yn ddelfrydol a 10 yn Gymraeg yn hanfodol. Dywedodd y Comisiynydd y dylai bod categorïau eraill ar y swydd o ran y Gymraeg, roedd angen adolygu'r broses gyfredol.

Eglurodd y Comisiynydd bod ychydig o newid yr oedd wedi rhoi ar waith ers dechrau ei swydd.

Dywedodd ei fod angen sicrhau bod adnoddau ar gael i gyflawni ymchwiliadau ac ymchwil manwl a chywir.

Y rheswm dros hyn yw y gallai'r Comisiynydd gynnal ymchwiliad heb gael unrhyw wybodaeth gan yr Awdurdod Lleol. Ar ôl dechrau'r ymchwiliad yna byddai'n rhaid ei gwblhau'n llawn.

Byddai'r comisiynydd yn cyflawni'r ymchwiliad, cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod Lleol, yna byddai'r Awdurdod Lleol yn derbyn y broblem ac yn adolygu sut y byddent yn stopio'r un broblem rhag digwydd yn y dyfodol.

Amlygodd y Comisiynydd a'r aelodau'r rhwystrau y mae lwerddon yn ei gael gyda'r iaith Gaeleg, a'r pryder bod ieithoedd swyddogol yn marw.

Nid oedd eisiau'r un problemau godi yng Nghymru, mae tua 9% o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg drwy'r dydd, bob dydd, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud eu bod eisiau'r ffigur hwn fod yn 20% erbyn 2050.

Dywedodd y Comisiynydd ei fod eisiau cwblhau gwaith ynghylch lefel Sgîl Iaith Gymraeg. Eglurodd yn ystod ymweliad diweddar i ysgol, ei fod yn amlwg bod myfyrwyr chweched dosbarth yn deall Cymraeg ond yn cael trafferthion i ymateb yn y Gymraeg. Teimlodd bod angen rhywbeth mewn lle i sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i siarad Cymraeg ar ôl y byd addysg.

Mae myfyrwyr yn gadael addysg heb wybod bod yr iaith Gymraeg yn sgil. Dyma'r rheswm fod y Comisiynydd eisiau canolbwyntio ar bolisiau recriwtio, teimlodd petai 75 o swyddi wedi'u rhestru fel Cymraeg yn ddymunol, yna nid oes digon o feddwl wedi cael ei roi wrth asesu'r rôl hon.

Cytunodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts bod safonau yn bwysig, ond mai dim ond megis dechrau yw hyn. Teimlodd bod agwedd yn flaenoriaeth, fodd bynnag roedd gwaith gwyb wedi cael ei wneud eisoes yn yr Awdurdod Lleol.

Yn y sir, rydym wedi gweld buddsoddiadau sylweddol mewn ysgolion, Ysgol Carreg Emlyn, Ysgol y Llys ayyb. Er hynny mae niferoedd Addysg Gymraeg wedi cynyddu gyda'r gobaith y bydd y ffigurau hyn yn parhau i gynyddu. Dywedodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts y byddai'n croesawu'r Comisiynydd i gefnogi'r Ganolfan Iaith yn Ysgol Glan Clwyd. Roedd y ganolfan yn bwysig gan y gallent wthio'r iaith Gymraeg o bobl ifanc i oedolion.

Yn ôl yr aelodau, unwaith y mae disgyblion yn cyrraedd 16 oed ac yn penderfynu ar eu pynciau Lefel A, maent yn tueddu symud i addysg cyfrwng Saesneg gan ei fod yn cynnig mwy o opsiynau. Roedd angen gwneud rhywbeth i gadw myfyrwyr mewn addysg cyfrwng Gymraeg.

Dywedodd y Comisiynydd mai'r Awdurdod Lleol sydd yn gallu gwneud penderfyniadau ar ganrannau. Er enghraifft gallai rhai adrannau asesu'r swydd a dod i'r casgliad nad oedd y Gymraeg yn hanfodol ac felly bod digon o siaradwyr Cymraeg eisoes yn yr adran.

Aeth ymlaen i egluro nad diffyg siaradwyr Cymraeg ydi'r broblem, ond hyder y rhai sydd yn gallu siarad Cymraeg.

Mae Coleg Cambria bellach yn cynnig rhywfaint o arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae rhai o'r tiwtoriaid personol yn siarad Cymraeg hefyd. Er bod hynny'n wych, dywedodd y Comisiynydd y gellir gwneud llawer mwy i gefnogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg.

Roedd y Comisiynydd yn teimlo ei bod yn bwysig dilyn y broses gwynion gywir. Unwaith mae'r Comisiynydd yn derbyn cwyn, mae'r mater yn cael ei ddyrannu i swyddog ymchwiliadau ac mae'r swyddog hwnnw yn penderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad llawn i'r mater. Mae swyddogion ymchwiliadau yn ystyried unrhyw gwynion blaenorol, mesurau sydd ar waith i atal cwynion yn y dyfodol, yn ogystal â gwneud argymhellion ynghylch a ddylid cynnal ymchwiliad llawn.

Dywedodd y byddai'n fodlon rhyddhau adnoddau mewnol pan fydd polisiau'n cael eu llunio, yn hytrach na dod o hyd i broblemau yn nes ymlaen.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau ei fod o wedi dysgu Cymraeg ac roedd yn betrusgar wrth siarad, a dywedodd ei fod yn enghraifft berffaith o'r math o berson y mae angen canolbwyntio arnynt. Dywedodd ei fod yn teimlo y byddai'n cael ei feirniadu am siarad yn anghywir petai'n siarad Cymraeg, er ei fod yn gwybod mai nid dyna'r achos. Gofynnodd a oedd unrhyw beth yn cael ei ddatblygu i sicrhau nad yw rhwystrau fel y rhai uchod yn dod yn broblem.

Dywedodd y Comisiynydd fod gwisgo cortynnau gwddf a bathodynau Cymraeg yn ffordd dda o annog pobl i siarad Cymraeg gyda'i gilydd. Ond mae'n rhywbeth i'w

adolygu os bydd y rhwystrau'n parhau. Dywedodd y Comisiynydd ei fod wedi cytuno i fynychu pob un o gyfarfodydd Rhanbarth Llais Cymru.

Aeth ymlaen i egluro eu bod yn gweithio'n agos gyda banciau a siopau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, roedd Menter Iaith yn gyfrifol am fusnesau llai.

I gloi, diolchodd y Comisiynydd i'r aelodau am y cyfle gael mynychu'r cyfarfod, a dywedodd y byddai'n fodlon mynychu unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: derbyn y diweddariad a bod y pwyllgor yn ei nodi.

6 CYNNYDD GYDA SAFONAU IAITH CYMRU (HUNAN ASESU)

PENDERFYNWYD: bod aelodau wedi trafod yr eitem yn yr eitem flaenorol a chytunwyd i barhau i'r eitem nesaf ar y rhaglen.

7 DIWEDDARIAD EISTEDDFOD YR URDD

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd wrth aelodau fod 1,600 o bobl wedi cymryd rhan yn yr ŵyl gyhoeddi. Dywedodd fod llawer o ysgolion wedi cymryd rhan ac roedd ymateb y Rhyl wedi creu argraff go iawn ar yr Urdd.

Cyfathrebu – roedd y grŵp strategol yn penderfynu ar y brif babell ar hyn o bryd. Dywedodd yr Arweinydd Tîm Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd eu bod am gael 3 rhan i'r babell; stiwdio, adran ar gyfer busnes a thwristiaeth ac adran ar gyfer celf a dylunio.

Busnes a Thwristiaeth – roedd gan y grŵp strategol nifer o syniadau, er enghraifft roeddent am i ganolfan feiciau Llandegla fynychu, SC2, stondinau agored sy'n hyrwyddo eu busnes.

Celf a Dylunio – y syniad oedd sicrhau bod rhywbeth yn digwydd trwy gydol yr wythnos. Er enghraifft, cystadleuaeth ddylunio barhaus a oedd yn annog pobl i ddychwelyd.

Ardal chwaraeon – roedd staff 5x60 yn dod â gwahanol chwaraeon i mewn trwy gydol yr wythnos, gydag offer.

Ysgolion – roedd sioeau ysgolion cynradd yn cael eu cynllunio eisoes, roedd y sioeau ar agor i flwyddyn 5 a 6, a byddai sioe ysgolion uwchradd hefyd.

PENDERFYNWYD: derbyn a nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Eisteddfod.

8 STRATEGAETH IAITH GYMRAEG - BUSNES AC ECONOMI

Rhoddodd y Rheolwr Tîm Datblygiad Economaidd a Busnes gyflwyniad PowerPoint i'r pwyllgor am Brosiect Peilot Cymraeg mewn Busnes.

I ddechrau, nododd fod y mwyafrif o ymatebion wedi dweud y byddai'n costio arian, fodd bynnag roedd enghreifftiau i'w gweld yn yr astudiaeth achos i brofi y byddai'n fanteisiol yn ariannol.

At ddibenion y cofnodion, chwaraewyd fideo i'r pwyllgor.

Roedd y fideo yn trafod cefnogaeth a chynghor o ran y Gymraeg a hefyd Cynnyrch Cymreig Lleol.

Astudiaethau Achos – roedd y rhaglen yn annog busnesau i ymgysylltu â staff. Er enghraifft, roedd gwesty'r Oriel House yn darparu priodasau cwbl Gymreig ac roedd ystadegau yn profi bod cynhyrchiant yn cynyddu.

Tynnodd y Rheolwr Tîm Datblygiad Economaidd a Busnes sylw at y ffaith fod y galw am Gyrsiau Cyfryngau Cymdeithasol wedi cynyddu.

Dywedodd hefyd fod y tîm EBT yn llai o lawer a allai achosi oedi mewn prosesau.

Dywedwyd wrth aelodau eu bod yn chwilio am fusnesau lleol i ymuno â phabell CSDd yn yr Eisteddfod.

Dywedwyd wrth y pwyllgor fod y tîm wedi bod yn gweithio ar fasnachwyr profiadol. Gweithio ar sut gall busnesau a siopau fod yn fwy cyfeillgar a chroesawgar, cerddoriaeth ac ati.

Dywedodd y Cadeirydd fod busnesau yn chwarae rhan hanfodol wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Roedd angen annog staff sy'n wynebu'r cyhoedd i ymgysylltu â'r Gymraeg. Diolchodd i'r Rheolwr Tîm Datblygiad Economaidd a Busnes am fynychu a chroesawodd y tîm yn ôl i gyfarfodydd y dyfodol.

I gloi'r eitem hon ar y rhaglen, dywedwyd bod y Rheolwr Tîm Datblygiad Economaidd a Busnes yn gadael yr awdurdod a hwn fyddai ei gyfarfod olaf. Diolchodd y pwyllgor iddo am ei waith a dymuno'n dda iddo.

PENDERFYNWYD: bod y pwyllgor yn derbyn a nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Iaith Gymraeg.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor i'w hystyried.

PENDERFYNWYD: derbyn a nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:00pm

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg
Dyddiad y Cyfarfod	Mawrth 17, 2020.
Aelod/Swyddog Arweiniol	Nicola Stubbins/Cynghorydd Huw Hilditch Roberts
Awdur yr Adroddiad	Gareth Watson, Arweinydd Tim Cyfathrebu
Teitl	Eisteddfod yr Urdd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag Eisteddfod yr Urdd.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar baratodau ar gyfer yr Eisteddfod a rôl y Cyngor yn y digwyddiad.

3. Beth yw'r Argymhellion?

I gytuno ar gynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

Yr Urdd yw'r mudiad mwyaf i bobl ifanc yn Ewrop gyfan ac mae Eisteddfod flynyddol yr Urdd yn denu 90,000 o bobl yn ystod yr wythnos. Cynhelir yr Eisteddfod yng Ngogledd a De Cymru ar sail cylchdro.

Trefnir y digwyddiad gan Urdd Gobaith Cymru, ond fe'i cefnogir gan swyddogion o bob adran o'r Cyngor. Er mai i'r Urdd y mae'r digwyddiad yn perthyn, mae'r Cyngor yn awyddus i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn i farchnata a hyrwyddo Sir Ddinbych fel cyrchfan allweddol.

Ariannu'r Eisteddfod: Mae'r Urdd yn cael ei ariannu mewn nifer o ffyrdd. Mae pob awdurdod yn cyfrannu'n flynyddol drwy gytundeb a drefnwyd gyda CLILC. Mae pwyllgorau codi arian lleol wedi bod yn trefnu llu o ddigwyddiadau dros y blynyddoedd diwethaf, er mwyn cyrraedd y targedau a osodwyd ar gyfer gwahanol gymunedau. Mae'r Urdd hefyd yn cael nawdd gan gwmnïau lleol ac yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru. Yma

Yr Eisteddfod: Bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ar safle fferm Kilford ger Dinbych o ddydd Llun, 25 Mai tan ddydd Sadwrn, 30 Mai. Cynhelir y cyngerdd agoriadol yn y Pafiliwn ddydd Sul, 24 Mai.

Themâu ar gyfer pabell fawr Sir Ddinbych: Bydd pabell fawr i'r Cyngor, fel partner allweddol, ar safle amlwg ar faes yr Eisteddfod. Thema'r babell fawr yw'r Gymraeg, diwylliant, treftadaeth, traddodiad, addysg cyfrwng Cymraeg a Chefn Gwlad. Bydd ein holl weithgareddau yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg (Rheol gan yr Eisteddfod) a bydd ein pabell yn cael ei staffio gan siaradwyr Cymraeg a dysgwyr drwy gydol yr wythnos.

Mae llawer o weithgareddau ar y maes sy'n cael eu hybu ar gyfer dysgwyr.

Bydd gan babell y Cyngor Sir bedair adran ar wahân. Bydd gan un ohonynt ofod theatr a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer perfformiadau drwy gydol yr wythnos. Bydd ysgolion o Sir Ddinbych sy'n cyrraedd y rowndiau terfynol yn cael eu hannog i neilltuo slot yn y babell fel cyfle i berfformio/ymarfer.

Bydd yr ail ofod yn hyrwyddo busnesau twristiaeth a phethau i'w gwneud yn y sir. Peter McDermott, arweinydd tîm twristiaeth sy'n arwain ar yr agwedd hon.

Bydd y drydedd lle yn cael ei neilltuo i gelf a chrefft a bydd artist preswyl yn gweithio yno yn ystod yr wythnos. Sian Fitzgerald, Swyddog Celfyddydau Cymunedol Sir Ddinbych sy'n arwain ar y maes hwn ac mae ganddo gynlluniau i ymgysylltu ag ysgolion drwy gyfrwng bardd plant Cymru i wneud rhywfaint o waith cyn yr Eisteddfod.

Bydd y bedwaredd adran yn dderbynfa gorfforaethol, yn croesawu ymwelwyr i'r babell.

Y tu allan i'r babell: Mae'r gwasanaeth cefn gwlad wrthi'n trefnu cynlluniau i gynnal arddangosfa allanol gan gynnwys golygfa o'r traeth a'r nodweddion ar gefn gwlad. Caiff trac BMX ei roi y tu ôl i'r babell, ac mae arddangosfa awyr dywyll hefyd yn cael ei chynllunio.

Staffio: Bydd rheolwr yn cael ei neilltuo i'r stondin bob dydd ac yn cael ei chefnogi gan dîm o aelodau staff corfforaethol. Byddant wrth law i gydlynu gweithgareddau yn y prif feysydd ac i ateb cwestiynau gan y cyhoedd. Byddant yn mynd ati'n rhagweithiol i annog pobl i ddefnyddio ein stondin.

Cyfryngau: Bydd y Cyngor yn cymryd rhan mewn sesiwn friffio i'r wasg ar ddydd Llun wythnos yr Eisteddfod a bydd gan aelod o dîm cyfathrebu Sir Ddinbych bresenoldeb yn y digwyddiad arall, pe bai materion yn ymwneud â Sir Ddinbych yn cael eu codi.

Presenoldeb dinesig: Bydd rhaglen o weithgareddau ar gyfer Cadeirydd yr awdurdod yn cael ei threfnu a'i rhannu gyda'r tîm yn nes at yr amser.

Grŵp Cyngori ar ddiogelwch: Mae'r SAG wedi bod yn cyfarfod i drafod materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch y digwyddiad. Mae eu cylch gwaith yn cynnwys diogelwch bwyd, trwyddedu, cynllun trafniadaeth, cynllun digwyddiad safle. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi datblygu'n fisol ac mae trefniadau'n cael eu rhoi ar waith.

Grŵp cyfathrebu a marchnata: Mae'r is-grŵp hwn wedi bod yn edrych ar wahanol agweddau, gan gynnwys cydlynu marquee ar gyfer Sir Ddinbych, hyrwyddo a marchnata'r digwyddiad, cyfryngau cymdeithasol ac annog pobl i ddod i aros yn y sir. Roedd y tîm yn bresennol yn Eisteddfod 2019 a chwaraeodd ran weithredol yn y seremoni gyhoeddi a gynhaliwyd ym Mhrestatyn ym mis Hydref.

Grŵp Addysg: Mae'r grŵp wedi bod yn edrych ar yr holl agweddau sy'n ymwneud ag ysgolion, yn cynnwys hyrwyddo cystadlaethau'r Urdd i bob ysgol, annog pobl i gymryd rhan mewn digwyddiadau, hyrwyddo'r seremoni gyhoeddi, a sicrhau bod gan blant y drwydded i ymwneud â'r gweithgareddau.

Ysgolion: Mae ysgolion cynradd wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y sioe ysgol gynradd, gydag ymarferion yn cael eu cynnal yn Rhuddlan, Dinbych, Rhuthun a Llangollen. Bydd y sioe yn cael ei chynnal ar lwyfan y prif bafiliwn ar y nos Fawrth.

Mae disgyblion yr ysgol uwchradd yn cymryd rhan yn y sioe uwchradd a fydd yn cael ei chynnal yn Theatr Elwy, Llanelwy ar Fai 2, 3 a 23.

Mae pob ysgol yn Sir Ddinbych wedi cael eu hannog i fod yn rhan o holl gystadlaethau Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r cyntaf a'r ail ym mhob cystadleuaeth ar lefel leol yn symud ymlaen i lefel y sir. Cynhelir rowndiau lleol yn Nyffryn Dyfrdwy, Rhuthun, Dinbych a'r Rhyl/Prestatyn.

Bydd enillwyr pob cystadleuaeth ar lefel sirol yn cynrychioli'r Sir yn y genedlaethol.

Bydd ysgolion hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn seremonïau yn ystod yr wythnos.

Cyfathrebu/ Hyrwyddo: Mae tîm cyfathrebu Sir Ddinbych wedi bod yn rhan o waith cynllunio'r Eisteddfod o'r cychwyn cyntaf. Bydd tîm Sir Ddinbych yn cefnogi tîm cyfathrebu corfforaethol yr Urdd drwy rannu negeseuon yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol, trefnu cyfleoedd i dynnu lluniau/ffilmio, trefnu gweithgareddau lleol i hyrwyddo'r Eisteddfod.

Bydd tîm Sir Ddinbych yn hyrwyddo'r Sir fel lle gwych i ymweld ag ef, naill ai ar wyliau neu fel ymwelwyr undydd a byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle yn ystod yr wythnos i arddangos y Sir ac i hyrwyddo'r hyn sydd gan y Sir i'w gynnig.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, sy'n sail i gynllun corfforaethol y Cyngor.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r is-grŵp cyfathrebu a marchnata, yn ogystal ag is-grŵp strategol sy'n cydlynu ymateb y Cyngor.

Mae gwybodaeth hefyd wedi'i darparu i grŵp llywio'r iaith Gymraeg a rhai grwpiau o Aelodau.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Les?

Er nad oes angen cynnal aseiad effaith llesiant ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 a'r safonau ar gyfer y Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden".

Mae gan y Cyngor hefyd rôl, drwy ei safonau iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r is-grŵp cyfathrebu a marchnata, yn ogystal ag is-grŵp strategol sy'n cydlynu ymateb y Cyngor.

Mae gwybodaeth hefyd wedi'i darparu i grŵp llywio'r iaith Gymraeg a rhai grwpiau o Aelodau.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae cynlluniau'n mynd rhagddynt yn dda, a'r risgiau yw'r tywydd ac unrhyw salwch.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg
Dyddiad y Cyfarfod	17 Mawrth, 2020
Aelod/Swyddog Arweiniol	Nicola Stubbins/ Cynghorydd Huw Hilditch Roberts
Awdur yr Adroddiad	Gareth Watson, Arweinydd Tim Cyfathrebu
Teitl	Safonau Iaith Gymraeg- Diweddariad

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn sôn am Safonau'r Gymraeg sy'n safonau statudol a gyflwynwyd yn Sir Ddinbych yn 2015.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Llywio'r Gymraeg am y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda Safonau'r Gymraeg

3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyo'r adroddiad a chytuno ar y camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â materion a amlygwyd yn yr adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg yn Sir Ddinbych yn 2015, fel rhan o'u cyflwyno i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Crëwyd y Safonau mewn ymateb uniongyrchol i rôl Comisiynydd y Gymraeg.

Cyflwynwyd y Safonau er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae angen i Sir Ddinbych gydymffurfio â 167 o Safonau sydd wedi cael eu rhannu rhwng pum maes allweddol: Darparu Gwasanaeth; Gwneud Polisiâu; Gweithredol.

Cadw Cofnodion a Hyrwyddo. Mae'n ddyletswydd ar bob aelod o'r sefydliad i weithredu'r Safonau hyn.

Dosbarthwyd mandad clir gan y Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'r nod yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cyhoedd yn eu hiaith ddewisedig. Yn ôl y disgwyl, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu'r safonau hyn ers sawl blwyddyn. Er nad oedd llawer o'r safonau yn newydd i'r sefydliad, roedd angen i ni sicrhau bod ymateb cadarnhaol i'w gweithredu ledled y sir a bod cwsmeriaid yn gweld gwell gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymddengys bod y Cyngor yn cydymffurfio â mwyafrif y Safonau yn gyffredinol. Y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol, sydd â chyfrifoldebau corfforaethol dros y Gymraeg, sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfedd â'r safonau. Maent yn cael eu cefnogi gan dîm o Bencampwyr Iaith Gymraeg sy'n gweithredu'n wirfoddol i hyrwyddo dull gweithio corfforaethol. Mae profion cydymffurfio yn cael eu cynnal ar hap gan sefydliadau eraill, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd Y Gymraeg.

Er yr ymddengys ein bod yn cydymffurfio yn y rhan fwyaf o achosion, mae angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo'r ffaith bod cyfarfodydd ar gael yn y Gymraeg a hawliau unigolion a wahoddir i gyfarfodydd i gyfrannu yn y Gymraeg. Er bod hynny'n digwydd, mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod pob aelod o staff yn cynnig y gwasanaeth hwn yn rhagweithiol pan fyddant yn trefnu cyfarfodydd. Mae rhai trafodaethau gyda nifer fach o staff yn dangos nad ydynt yn gyfarwydd â'r Safonau penodol hyn ac mae angen mynd i'r afael â hyn dros yr wythnosau nesaf trwy gyfathrebu'n rhagweithiol.

Mae swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal gwaith ymchwil a llunio adroddiad sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth pob awdurdod lleol. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi ymweld â'r Cyngor Sir er mwyn trafod cydymffurfiaeth. Yn gyffredinol, mae'r Comisiynydd yn hapus gyda pherfformiad y Cyngor Sir a mynegodd fod perthynas weithiol dda rhwng yr awdurdod a'i swyddfa.

Mynegodd y bydd yn cynnal adolygiad yn hwyrach yn y flwyddyn o brosesau recriwtio, er mwyn cryfhau'r modd y mae awdurdodau lleol yn asesu sgiliau ieithyddol pob swydd wag.

Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo negeseuon ynglŷn â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, i sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio ar lefel uchel.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n sylfaen i Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes yna gyllideb ar gyfer datblygu Strategaeth y Gymraeg. Disgwylir i unrhyw gostau gael eu derbyn gan gyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Les?

Er nad oes angen Aseiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg.

Un o brif elfennau'r Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy Safonau'r Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Mae Grŵp Llywio'r Gymraeg wedi trafod Safonau Iaith yn flynyddol, ac fel rhan o'r broses creu adroddiad blynyddol.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w

Y prif risg yw'r risg i enw da'r awdurdod, gan ein bod eisoes wedi ymrwymo yn ein Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy Safonau'r Gymraeg i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac o fewn cymunedau.

Cynllun Gweithredu 2020

GWEITHRED	PWY	ERBYN
Cynllun Cyfathrebu – cyfres o weithgareddau i hyrwyddo'r safonau	Gareth Watson Manon Celyn	Haf 2020
Trafodaeth ar Safonau Iaith gyda thimau rheoli	Gareth Watson Manon Celyn	Diwedd 2020
Ymarferiad Siopwr Cudd	Pencampwyr Iaith	Diwedd 2020
Gweithio gyda swyddfa'r Comisiynydd Iaith i hyrwyddo arfer da	Gareth Watson Manon Celyn	Haf 2020

Adroddiad i'r	Grŵp Llywio'r Gymraeg
Dyddiad y Cyfarfod	17 Mawrth 2020
Aelod/Swyddog Arweiniol	Nicola Stubbins / Cynghorydd Huw Hilditch Roberts
Awdur yr Adroddiad	Gareth Watson, Arweinydd Tim Cyfathrebu
Teitl	Datblygiadau iaith Gymraeg lleol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â datblygiadau yn y Gymraeg.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd gyda gweithgareddau iaith Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyo'r gwaith sy'n cael ei wneud yn Sir Ddinbych.

4. Manylion yr adroddiad

Isod ceir crynodeb o rai o'r prosiectau allweddol sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn Sir Ddinbych, yn ogystal â datblygiadau Cenedlaethol.

Mwy na Geiriau

Isod ceir crynodeb o rywfaint o'r prif weithgarwch mewn perthynas â'r fframwaith mwy na geiriau (ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol)

Eleni, mae'r sector wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r cynnig rhagweithiol. Rhoddwyd cyflwyniad mewn cynhadledd ar gyfer darparwyr gofal ac eitemau ar gyfer mwy na geiriau a chynhwysir y cynnig rhagweithiol mewn cylchlythyrau chwarterol ar gyfer darparwyr. Mae posteri iaith gwaith a chordiau gwddf yn cael eu dosbarthu yn ogystal â sticeri iaith gwaith.

Disgwylir i holl staff mewnol y Cyngor gwblhau modiwl e-ddysgu ar ' ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ' a bydd staff sy'n newydd i'r adran yn cael cyflwyniad ar Mwy na Geiriau fel rhan o'u Cyflwyniad sefydlu. Rhoddir cyflwyniad tebyg i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol sydd wedi'u lleoli yn yr awdurdod. Yn ogystal, rydym wedi diweddarau'r ffurflen ' lleoliadau ' ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol er mwyn iddynt allu adnabod eu sgiliau iaith at ddiben paru gydag aseswyr penodol.

Yn ogystal, mae cwrs hanner diwrnod wedi cael ei gynnal ar gyfer staff ' rheng flaen ' a'r gwasanaeth pwynt mynediad sengl. Bwriad y cwrs yw sicrhau bod unigolion gyda'r sgiliau i gyfarch a chwrdd â'r cyhoedd yn Gymraeg ac i wneud y cynnig rhagweithiol.

Cynllunio'r gweithlu gan gynnwys recriwtio staff â sgiliau iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac mae yn y broses o goladu gwybodaeth am lefel sgiliau staff – yn unol â safonau'r Gymraeg. Bydd y wybodaeth yn ein helpu i ganfod a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, yn ogystal â nodi unrhyw anghenion hyfforddi.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn casglu data yn flynyddol ar sgiliau iaith pob darparwr gofal cymdeithasol ledled Cymru – yn ôl awdurdod.

Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws gweithgorau gofal cymdeithasol

Rydym wedi sicrhau bod y gweithfannau yn ymwybodol o'r adnoddau, yr apiau a'r cyrsiau sydd ar gael am ddim (i gynnwys cyrsiau ar-lein) ar gyfer staff sydd eisiau dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan fewnol y Cyngor.

Mae cwrs blasu Cymraeg byr wedi ei gynnig i weithwyr gofal, yn ogystal â chwrs ' Rhowch gynnig ar eich Cymraeg ' sydd wedi ei deilwra ar gyfer staff gofal sydd wedi derbyn addysg ddwyieithog ond sydd angen datblygu'r hyder i ddefnyddio eu Cymraeg.

Mae 4 aelod o staff wedi mynychu cwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn. Yn ogystal, cynhelir sesiynau ' Paned a Sgwrs ' i ddarparu cyfle i staff mewnol i ymarfer eu Cymraeg.

- Cynhaliwyd cwrs ' Mwy na Geiriau ' ar gyfer rheolwyr yr adran plant ac oedolion er mwyn sicrhau arweiniad a pherchnogaeth ' mwy na geiriau ' gan adrannau.
- Hyrwyddo'r Gymraeg yng nghynhadledd ranbarthol y timau adnoddau cymunedol.
- Hyrwyddo diwrnodau penodol i sylw'r sector gofal, gan gynnwys Dydd Santes Dwynwen, dydd Shwmai Sumai a Dydd Miwsig Cymru.

Cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg

- Hyfforddiant staff – yn ystod 2019 10 Mae aelodau o staff o 5 ysgol wedi mynychu'r cwrs sabothol. Gyda'i gilydd a hyn mae 24 o aelodau staff eraill o ysgolion yn derbyn hyfforddiant a chanllawiau bob tymor.
- Cynnydd yng nghanran y plant sy'n trosglwyddo o CA2 i CA3 – yn 2018 y ganran a oedd yn trosglwyddo o CA2 i CA3 oedd 88%. Yn 2019 Mae hyn wedi cynyddu i 93%.
- Grant gofal plant – Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi sicrhau grant cyfalaf i gefnogi lleoedd gofal cyn ysgol yn Ninbych a'r Rhyl. Yn 2019, trosglwyddodd 94% o'r plant gylchoedd meithrin i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod sylfaen. Bydd y grant yn cynnwys adleoli Cylch Bodawen (trosglwyddo 54%) a chylch Rhuddlan (trosglwyddo 86%) i safleoedd Ysgol Twm o'r Nant ac Ysgol Dewi Sant.
- Nifer y disgyblion cynradd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg – yn 2017 Roedd 2028 o ddisgyblion cynradd amser llawn yn ein hysgolion yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Ym mis Medi 2019 Roedd 2069 o ddisgyblion cynradd yn ein hysgolion. Mae hyn yn gynydd o 2%.

Canolfan Iaith

Mae gwaith wedi dechrau ar adeiladu Canolfan Gymraeg ar safle Ysgol Glan Clwyd yn Llanelwy.

Bydd yr hen floc gwyddoniaeth yn yr ysgol, a farnwyd ei fod yn ddiangen fel rhan o'r £16,000,000 o ddatblygiadau ysgol newydd sbon ar y safle yn awr yn gartref i'r ganolfan Gymraeg newydd sbon.

Bydd y Ganolfan yn cael ei defnyddio i ddarparu ar gyfer disgyblion cyn oed ysgol, cefnogi hwyrddfydiaid i addysg cyfrwng Cymraeg, cyfleuster ar gyfer datblygu adnoddau iaith Gymraeg, yn ogystal â chyfleuster y gellir ei ddefnyddio ar gyfer dysgu oedolion y tu allan i oriau ysgol.

Bydd y datblygiad yn darparu cynhwysedd parcio ychwanegol ar gyfer 40 o gerbydau.

Mae'r cynllun yn rhan o'r ymrwymiad a wnaed gan y Cyngor tuag at gyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg yn y Sir a thuag at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Arolwg sgiliau ieithyddol Cymraeg

Disgwylir i'r Cyngor, fel rhan o'i ymateb i safonau'r Gymraeg, gynnal hunanasesiad o sgiliau iaith Gymraeg staff.

Mae arolygon blaenorol wedi esgor ar ganlyniadau a gofynnwyd i staff nodi pa lefel o Gymraeg yr oeddent wedi ei chyrraedd o ran darllen ac ysgrifennu. Y lefelau hyn oedd:

- Ddim o gwbl
- Ychydig bach
- Cymedrol
- Gweddol rugl
- Rhugl

Er bod y canlyniadau'n rhoi cipolwg, cytunwyd i ddarparu gwybodaeth fanylach o ran y lefelau, fel y byddai hyn yn helpu'r staff i gwblhau'r asesiad yn gywir. Byddai hefyd yn golygu y byddai gwybodaeth fwy ystyrlon yn cael ei choladu ac y byddai'n cael ei bwydo i'r broses cynllunio busnes flynyddol.

Y cynnig yw defnyddio'r un system a ddefnyddir gan nifer o sefydliadau eraill, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru a gwasanaeth tân ac Achub Gogledd Cymru.

Hyd yma, mae 1,602 wedi cwblhau'r arolwg, o gymharu â 777 sydd heb eu cwblhau. Nid yw'r canlyniadau hyn yn cynnwys ysgolion, gan eu bod wedi cwblhau eu hasesiadau eu hunain.

Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i nodi'r unigolion nad ydynt wedi cwblhau'r arolwg ac i gael darlun mor llawn â phosibl erbyn i'r Cyngor gynhyrchu ei adroddiad Iaith Gymraeg blynyddol ym mis Mehefin.

Y diweddaraf am bartneriaeth y Gymraeg-partneriaith

Mae'r bartneriaeth yn cynnwys nifer o sefydliadau, gan gynnwys y Cyngor, yr Urdd, Menter Iaith Sir Sir Ddinbych, ffermwyr ifanc, merched y Wawr, Coleg Cambria a Mudiad Ysgol Meithrin.

Dros y chwe mis diwethaf, mae'r bartneriaeth wedi bod yn mapio gweithgareddau Cymraeg ar draws y Sir, gyda'r bwriad o nodi meysydd lle mae angen cefnogaeth bellach drwy weithio gyda chymunedau lleol.

Mae Llangollen wedi'i henwi'n ardal prosiect peilot. Dros y misoedd nesaf, bydd y bartneriaeth yn gweithio gyda'r gymuned leol i adnabod cyfleoedd i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg trwy weithgareddau cymdeithasol.

Ar ôl cytuno ar ddull gweithredu, caiff y peilot ei ymestyn i gymunedau eraill yn y sir.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

6. Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, sy'n

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes arian ar gael ar gyfer y gwaith hwn. Byddai unrhyw gostau'n cael eu hamsugno gan y partneriaid presennol a thrwy ewyllys da'r Aelodau.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Er nad oes angen cynnal asesiad effaith llesiant ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 a'r safonau ar gyfer y Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden".

Mae gan y Cyngor hefyd rôl, drwy ei safonau iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r is-grŵp cyfathrebu a marchnata, yn ogystal ag is-grŵp strategol sy'n cydlyn ymateb y Cyngor.

Mae gwybodaeth hefyd wedi'i darparu i grŵp llywio'r iaith Gymraeg a rhai grwpiau o Aelodau.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risg yw gostyngiad posibl yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir (yn ôl Mesur y Cyfrifiad Cenedlaethol). Mae'r holl sefydliadau partner hefyd wedi ymrwmo i gyfrannu tuag at ddatblygu'r Gymraeg yn genedlaethol a thuag at y targed o filiwn o siaradwyr a osodwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2050.

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG

Cyfarfod	Eitem (disgrifiad / teitl)	Pwrpas yr Adroddiad	Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt
10 Tachwedd 2020			

Nodyn I Swyddogion – Dyddiadau Cau Adroddiadau

<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiad Cau</i>	<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiad Cau</i>	<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiad Cau</i>

EITEMAU'R DYFODOL

CYFARFOD	Eitem (disgrifiad / teitl)	Pwrpas yr Adroddiad	Awdur / Swyddog Cyswllt

Updated 11/03/20 SJ

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag